



---

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)**

Bwriad polisi ar gyfer  
is-ddeddfwriaeth sydd i'w  
gwneud o dan y Bil

Chwefror 2017

## **Bwriad polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth arfaethedig sydd i'w gwneud o dan Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)**

1. Mae'r ddogfen hon yn rhoi syniad o'r cyfeiriad polisi presennol ar gyfer sut mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu arfer y pwerau is-ddeddfwriaeth ym Mil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (*y Bil*).
2. Amcanion y Bil yw diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a sicrhau bod Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn parhau, gan newid ei enw i Dribiwnlys Addysg Cymru.
3. Mae elfennau allweddol y diwygiadau wedi'u nodi ar wyneb y Bil a byddant yn cychwyn gan orchmynion a wneir gan Weinidogion Cymru. Hefyd, mae'r Bil yn rhoi nifer o bwerau is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru. Bydd y rhain yn golygu bod modd rhagnodi materion o fanylion gweithdrefnol, sicrhau bod modd alinio elfennau penodol o'r Bil â deddfwriaeth bresennol, a darparu ar gyfer hyblygrwydd yn y dyfodol ynghylch materion a all newid o dro i dro neu sydd angen cael eu diweddarau.
4. Ac eithrio'r pwerau i gychwyn darpariaethau'r Bil a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (*y Cod*) drwy gyflwyno gorchymyn, a'r broses o lunio a chyhoeddi'r Cod ei hun, mae'r pwerau dirprwyedig a ddarperir gan y Bil hwn yn bodoli ar ffurf rheoliadau. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar fanylion y rheoliadau arfaethedig lle bo hynny'n briodol cyn iddynt gael eu gwneud.
5. Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth am y bwriadau polisi ar gyfer arfer y pwerau yn y Bil (yn amodol ar daith y Bil drwy'r Cynulliad) i wneud rheoliadau a gorchmynion. Bydd y bwriad polisi mewn perthynas â'r swyddogaeth i gyhoeddi Cod ar gael ar ffurf Cod drafft a ddarperir ar wahân.
6. Mewn perthynas â chychwyn y Bil, mae adran 87 yn darparu bod adran 1, ac adrannau 84 i 88, yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl Cydsyniad Brenhinol. Mae darpariaethau eraill y Bil i'w cychwyn drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae adran 5(4) (b) yn darparu pŵer tebyg ynghylch gweithredu'r Cod.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â:

Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

<http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld10862/pri-ld10862-w.pdf>

Memorandwm Esboniadol

<http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld10862-em/pri-ld10862-em-w.pdf>

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol
Rhan y Bil:	2
ADRAN	3(4)
DISGRIFIAD O'R PŴER	
<p>Mae adran 3(1) yn diffinio ystyr 'darpariaeth ddysgu ychwanegol' ('DDdY') mewn perthynas â pherson sy'n dair oed neu'n hŷn; mae adran 3(2) yn diffinio DDdY i'r rhai sy'n iau na thair oed; ac mae adran 3(3) yn diffinio addysg feithrin drwy gyfeirio at y rhai sydd wedi cyrraedd 3 oed.</p> <p>Mae adran 3(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddisodli, drwy reoliadau, y cyfeiriadau hyn at dair oed â chyfeiriadau at oedran gwahanol.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD	
<p>Byddai rheoliadau o dan yr adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddisodli'r cyfeiriadau presennol at dair oed â chyfeiriadau at oedran gwahanol mewn ymateb i newidiadau mewn polisi neu mewn arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y blynyddoedd cynnar.</p>	
BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU	
<p>Mae DDdY wedi'i diffinio drwy gyfeiriad at dair oed gan mai hwn yw'r oedran pan fydd y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn rhwng 3 a 7 oed yng Nghymru, yn cychwyn mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir. Hefyd, hwn yw'r oedran pan fydd addysg a ariennir gan y wladwriaeth yn dechrau cael ei darparu ar gyfer plant fel arfer. Pe bai'r amgylchiadau hyn yn peidio â bod yn berthnasol yn y dyfodol, neu os yw ffactorau yn dod i'r amlwg sy'n awgrymu y gall trothwy oedran gwahanol fod yn fwy priodol, mae'n bwysig bod Gweinidogion Cymru yn gallu addasu'r trothwy oedran yn briodol. Mae'r pŵer i wneud rheoliad yn galluogi hyn, ond ni ragwelir y bydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol agos.</p>	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)	

PŴER YN YMWNEUD Â:	Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol
Rhan y Bil:	2
ADRAN	4(4)
DISGRIFIAD O'R PŴER	
<p>Caiff y cod osod gofynion—</p> <p>(a) ar awdurdod lleol mewn cysylltiad â threfniadau y mae'n rhaid iddo eu gwneud o dan adrannau 7 (cyngor a gwybodaeth), 61 (osgoi a datrys anghytundebau) a 62 (gwasanaethau eirioli annibynnol);</p>	

(b) ar gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru neu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu awdurdod lleol mewn cysylltiad â—

(i) phenderfyniadau ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol,

(ii) llunio, cynnwys, ffurf, adolygu a diwygio cynlluniau datblygu unigol, neu

(iii) beidio â chynnal cynlluniau datblygu unigol;

(c) ar gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru neu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru mewn cysylltiad â darparu gwybodaeth at ddibenion y Rhan hon.

Hefyd, gall y Cod gynnwys canllawiau yn ymwneud ag arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf gan y personau a restrir yn adran 4(2).

#### PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y COD

Bwriedir i'r Cod ADY fod yn brif ddogfen i'w defnyddio gan y rhai sy'n gyfrifol am gyflenwi'r system newydd ar y lefel weithredol, ac yn arbennig awdurdodau lleol a staff ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Mae'r pwerau gwneud gofynion sy'n cael eu harfer drwy'r Cod yn cwmpasu'r manylion ynghylch y modd y bydd awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu yn cyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â phenderfyniadau ADY a CDU, rhoi gwybodaeth a chynghor, osgoi/datrys anghydfodau a gwasanaethau eirioli annibynnol. Mae'n briodol sicrhau bod y gofynion gweithredol manwl hyn yn cael eu cynnwys yn y ddogfen sydd, mewn gwirionedd, yn llawlyfr gweithredol. Mae pennu gofynion mewn Cod (sy'n cynnwys canllawiau hefyd) yn hytrach nag ar wyneb y Bil neu mewn rheoliadau yn cynnig offeryn ymarferol sy'n hawdd cael gafael arno.

#### BWRIAD POLISI'R COD

Mae drafft waith o'r Cod wedi'i ddarparu ar wahân i nodi bwriad y polisi.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

Mae gwaith ar y Cod drafft yn mynd rhagddo, ac mae gwaith gyda phartneriaid allanol i ddatblygu ei gynnwys yn parhau. Bydd y darpariaethau presennol yn cael eu hategu a'u cefnogi mewn rhai meysydd gan ragor o fanylion a deunydd ategol. Bydd rhai meysydd penodol o'r Cod yn esblygu yn anochel, sef y rhai sy'n ymwneud ag adrannau o'r Ddeddf sy'n cynnwys pŵer i wneud rheoliad, fel y nodir yn y drafft presennol drwyddi draw.

Mae'n bosibl y bydd angen gwneud newidiadau oherwydd diwygiadau i'r Bil yn ystod ei daith drwy'r Cynulliad.

GORCHYMYN YN YMWNEUD Â:	Y weithdrefn ar gyfer gwneud y Cod
Rhan y Bil:	2
ADRAN	5(4)(b)
DISGRIFIAD O'R PŴER	
Mae adran 5(4) (b) yn ymwneud â chychwyn y Cod a'r Codau diwygiedig. Maent yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol. O dan adran 5(5), caiff gorchymyn bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion	

gwahanol, a gwneud darpariaethau darfodol, trosiannol neu arbed mewn cysylltiad â dod â darpariaeth yn y cod i rym.

#### PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y GORCHYMYN

Mae angen y pŵer hwn i wneud gorchymyn er mwyn sicrhau bod y diwrnod(au) a bennir ar gyfer cychwyn y Cod neu ddiwygiadau iddo yn briodol gan ddibynnu ar yr amgylchiadau ar y pryd, er enghraifft, i sicrhau bod y diwrnod(au) penodedig yn cyd-fynd â'r trefniadau cychwyn a throsglwyddo manwl.

#### BWRIAD POLISI'R GORCHYMYN

Er mwyn trosglwyddo'n effeithiol o'r hen system ddeddfwriaethol i'r system newydd, mae'n bosibl y bydd angen i'r Cod ddod i rym yn raddol yn unol â'r trefniadau gweithredu eraill (a fydd yn ystyried safbwyntiau partneriaid allanol ac eraill).

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Cynlluniau Datblygu Unigol: awdurdodau lleol
Rhan y Bil:	2
ADRAN	12(1)(c)(ii)
DISGRIFIAD O'R PŴER	
<p>Mae adran 12(1)(c)(ii) yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol lunio a chynnal CDU os:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>a) yw'n penderfynu bod gan berson ifanc (nad yw yn yr ysgol nac yn mynychu sefydliad addysg bellach) ADY, ac</li><li>b) yn penderfynu, yn unol â'r rheoliadau sydd i'w gwneud o dan 12(1) (c) (ii), bod angen llunio a chynnal cynllun ar gyfer y person ifanc i ddiwallu ei anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant.</li></ul> <p>Bydd y rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 12(1) (c) (ii) yn llywio penderfyniad awdurdod lleol ynglŷn â phryd y bydd 'angen' i'r awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun yn yr achosion hyn.</p>	
PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD	
<p>Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benderfynu yn unol â rheoliadau a oes angen iddynt lunio a chynnal cynllun ar gyfer person ifanc. Gall y meini prawf priodol sy'n effeithio ar bryd y mae angen iddynt wneud hyn newid dros amser, a bydd galluogi Gweinidogion Cymru i wneud hyn drwy ddefnyddio rheoliadau yn rhoi hyblygrwydd iddynt ddiwygio'r meini prawf sydd angen eu defnyddio mewn ymateb i amgylchiadau ac ymarfer newidiol.</p>	
BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU	
<p>Byddai'r rheoliadau yn cael eu defnyddio i bennu'r meini prawf y bydd angen i awdurdodau lleol eu defnyddio wrth benderfynu a oes angen llunio CDU ar gyfer person ifanc nad yw mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu nad yw'n mynychu sefydliad addysg bellach yng Nghymru. Bydd y meini prawf yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod CDU yn cael ei lunio a'i gynnal ar gyfer pobl ifanc sydd ag ADY mwy dwys a chymhleth, nad yw darpariaeth</p>	

addysg ôl-16 brif ffrwd ar gael ar eu cyfer nac yn addas iddynt oherwydd eu ADY ond sydd, serch hynny, ag angen rhesymol am addysg neu hyfforddiant a bod CDU wedi'i lunio a'i gynnal ar eu cyfer. Y bobl ifanc hyn fyddai'r rhai sy'n derbyn cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i fynychu sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Cynlluniau Datblygu Unigol: awdurdodau lleol
Rhan y Bil:	2
ADRAN	12(7)(c)
DISGRIFIAD O'R PŴER	
Mae adran 12(7)(c) yn galluogi rheoliadau i bennu mathau eraill o ddarpariaeth (ac eithrio darpariaeth ddysgu ychwanegol, lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall, neu fwyd a llety) y mae'n rhaid eu disgrifio mewn CDU ac yna eu sicrhau gan awdurdod lleol, os na ellid diwallu anghenion rhesymol y plentyn neu'r person ifanc am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol fel arall.	
PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD	
Wrth i dystiolaeth ddod i'r amlwg dros amser ynglŷn â sut mae'r system newydd yn gweithio yn ymarferol, gall ddod yn glir bod angen mathau eraill o ddarpariaeth ategol er mwyn sicrhau bod modd rhoi darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol ar waith ar gyfer plentyn neu berson ifanc. Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn gyflym i unrhyw dystiolaeth o'r fath sy'n dod i'r amlwg.	
BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU	
Ni fwriedir i'r pŵer hwn i wneud rheoliadau gael ei ddefnyddio oni bai a nes bod tystiolaeth yn dod i'r amlwg bod mathau eraill o ddarpariaeth yn hanfodol i sicrhau bod modd rhoi darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol ar waith mewn rhai achosion.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)	

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Termau allweddol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal
Rhan y Bil:	2
ADRAN	13(2)
DISGRIFIAD O'R PŴER	
Mae adran 13(2) yn galluogi rheoliadau i ragnodi categorïau o blant sy'n derbyn gofal nad ydynt i gael eu trin fel derbyn gofal gan awdurdod lleol at ddibenion y Ddeddf hon.	

## PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD

Amcan darpariaethau'r Bil yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal yw sicrhau bod gwaith cynllunio addysgol ar gyfer plant o'r fath o dan y ddeddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol yn cyd-fynd â'r gwaith cynllunio addysgol o dan y Bil (lle bo gan blant ADY). Yn y cyswllt hwn, yn gyffredinol, mae'r Bil yn gosod dyletswyddau mewn perthynas ag ADY ar yr awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn, gan ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gynnwys unrhyw CDU yng nghynllun addysg personol y plentyn, sy'n cael ei gynnal fel rhan o'r cynllun gofal a chymorth ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014").

Mae'r gofyniad presennol i sicrhau bod gan blant sy'n derbyn gofal gynllun addysg personol wedi'i nodi mewn rheoliadau a wneir o dan bwerau yn Neddf 2014, ac mae yna eithriadau i'r gofyniad. Yn unol â hyn, mae'r pŵer hwn yn golygu bod modd sicrhau bod y diffiniad o blentyn sy'n derbyn gofal at ddibenion y Bil yn cyd-fynd â'r categorïau o blant sy'n derbyn gofal sydd â chynlluniau addysg personol, a bod modd newid y diffiniad hwnnw dros amser i adlewyrchu unrhyw newidiadau a all gael eu gwneud o dan bwerau yn Neddf 2014 ynglŷn â pha blant sy'n derbyn gofal sydd â chynlluniau addysg personol (gweler adran 15 o'r Bil a'r pŵer i wneud rheoliad sydd i'w osod yn adran 83 o Ddeddf 2014).

## BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU

Byddai rheoliadau'n cael eu llunio yn y dechrau er mwyn sicrhau bod y diffiniad o blant sy'n derbyn gofal at ddibenion y Bil yn cyfateb i'r diffiniad o blant sy'n derbyn gofal sydd â chynllun addysg personol ar sail Deddf 2014. Ar hyn o bryd, y grwpiau o blant nad oes ganddynt gynlluniau addysg personol yw: plant sy'n derbyn gofal ar y sail eu bod yn cael eu lletya ar gyfer lleoliadau tymor byr (yn unol â diffiniad Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015); a phlant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu lleoli i'w mabwysiadu. Hefyd, nid oes gan bob plentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth gynllun addysg personol, ond mae adran 13(1)(b) o'r Bil eisoes yn darparu ar gyfer hyn, felly ni fyddai'n cael ei ragnodi yn y rheoliadau hyn.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig â'r pŵer i wneud rheoliad sydd wedi'i osod yn adran 83 o Ddeddf 2014 gan adran 14(2) o'r Bil. Fel yr eglurwyd uchod, y bwriad yw cydgyssylltu'r broses o arfer y ddau bŵer fel bod yr un categorïau yn cael eu pennu o dan bob pŵer (ac eithrio'r sefyllfa yn ymwneud â phersonau sy'n cael eu cadw'n gaeth sy'n derbyn gofal).

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Rhan y Bil:	2
ADRAN	14(2) mewnosod is-adran (2B) i adran 83 o Ddeddf 2014

## DISGRIFIAD O'R PŴER

Ar hyn o bryd, mae yna bŵer rheoleiddio yn adran 83 o Ddeddf 2014 er mwyn rhagnodi cynnwys cynllun gofal a chymorth. Mae rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan bŵer adran 83 yn nodi bod angen i'r cynllun gofal a chymorth gynnwys cynllun addysg personol, yn



amodol ar rai eithriadau (gweler Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015). Byddai adran 14 yn mewnosod is-adran (2A) newydd yn adran 83 o Ddeddf 2014 er mwyn gosod y gofyniad i gynlluniau gofal a chymorth adran 83 gynnwys cynllun addysg personol ar wyneb y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r pŵer hwn yn galluogi eithriadau i'r gofyniad hwnnw.

**PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD**

Mae'r pŵer yn cadw'r hyblygrwydd sydd eisoes yn bodoli i wneud eithriadau, gan na fydd angen cynllun addysg personol ym mhob achos, neu na fydd cynllun o'r fath yn briodol (megis plant sy'n derbyn gofal am gyfnodau byr achlysurol yn hytrach nag yn barhaus), a gallai fod yn briodol newid eithriadau yn sgil newid mewn amgylchiadau hefyd. Mae'r pŵer yn briodol er mwyn cadw'r hyblygrwydd sydd eisoes yn bodoli (sy'n briodol hefyd).

**BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU**

Bwriedir defnyddio'r pŵer er mwyn parhau â'r sefyllfa bresennol h.y. fel bod yr eithriadau i'r gofyniad i sicrhau cynlluniau addysg personol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael eu hatgynhyrchu.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

Mae'r pŵer hwn yn gysylltiedig â'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 13(2) (y pŵer i ragnodi categorïau o blant sy'n derbyn gofal nad ydynt yn derbyn gofal at ddibenion y Ddeddf). Y bwriad yw cydgysylltu'r broses o arfer y ddau bŵer fel bod yr un categorïau yn cael eu pennu o dan bob pŵer (ac eithrio plant sy'n cael eu cadw'n gaeth, sy'n cael eu trafod ar wahân).

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau cyrff llywodraethu o dan adran 29
Rhan y Bil:	2
ADRAN	30(1)(b)
<b>DISGRIFIAD O'R PŴER</b>	
Mae adran 30 yn galluogi plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc i wneud cais i awdurdod lleol ailystyried penderfyniad corff llywodraethu ysgol a gynhelir o dan adran 29 nad oes gan blentyn neu berson ifanc ADY mwyach (canlyniad y cyfryw benderfyniad yw y gall y corff beidio â chynnal y CDU). Mae is-adran 30(1) (b) yn darparu i Weinidogion Cymru ragnodi mewn rheoliadau'r cyfnod pan fydd modd gwneud cais o'r fath (yn dilyn hysbysiad am y penderfyniad o dan adran 29). Os nad oes unrhyw gais yn cael ei wneud yn ystod y cyfnod hwn, gall corff llywodraethu'r ysgol beidio â chynnal y cynllun (adran 31(2)).	
<b>PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD</b>	
Byddai'r cyfnod priodol ar gyfer gwneud cais am ailystyriaeth yn cael ei bennu yn unol â'r amserlenni mwy cyffredinol ar gyfer CDU a nodir yn y Cod. Hefyd, mae'n bosibl y bydd angen iddo newid dros amser os daw tystiolaeth i'r amlwg ar ôl i'r Bil gael ei roi ar waith. Er mwyn sicrhau bod y ffactorau hyn yn cael eu hystyried, mae angen pennu'r cyfnod mewn rheoliad.	
<b>BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU</b>	
Bydd y cyfnod a bennir gan y rheoliadau yn cadw cydbwysedd rhesymol rhwng sicrhau bod gan blentyn, person ifanc neu riant amser digonol i arfer ei hawl i wneud cais am	



ailystyriaeth o benderfyniad corff llywodraethu nad oes gan y disgybl ADY mwyach, ac nad yw dyletswyddau yn berthnasol i gorff llywodraethu am gyfnod hir nad oes eu hangen mwyach.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Rheoliadau ynghylch trosglwyddo cynlluniau datblygu unigol
Rhan y Bil:	2
ADRAN	34

#### DISGRIFIAD O'R PŴER

Mae adran 34 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch trosglwyddo CDU rhwng awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu. Er enghraifft, gall rheoliadau o dan yr adran hon osod dyletswydd ar awdurdod lleol neu gorff llywodraethu i gynnal CDU a luniwyd gan awdurdod arall ac i drin y pethau a wneir gan yr awdurdod sy'n trosglwyddo mewn perthynas â'r cynllun fel pe baent wedi eu gwneud gan yr awdurdod arall neu'r corff llywodraethu arall.

Byddai'r manylion yn y rheoliadau hyn yn datblygu'r fframwaith sylfaenol a nodir yn adran 33 ar gyfer sicrhau bod y ddyletswydd i gynnal CDU yn trosglwyddo rhwng cyrrff pan fydd plentyn neu berson ifanc yn symud o un sefydliad i sefydliad arall neu o un ardal llywodraeth leol i ardal arall.

#### PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD

Gall fod angen i'r manylion ynghylch trosglwyddo CDU rhwng sefydliadau addysgol gwahanol neu awdurdodau lleol gwahanol newid dros amser mewn ymateb i dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar ôl rhoi'r system ddeddfwriaethol newydd ar waith. Bydd y pwerau i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r manylion dros amser. Hefyd, gallant bennu amserlenni ar gyfer bodloni'r gofynion a nodir yn y fframwaith.

#### BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU

Byddai'r rheoliadau'n cael eu defnyddio i sefydlu mecanwaith ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo yn y modd mwyaf effeithiol pan fydd y ddyletswydd i gynnal CDU yn trosglwyddo o un corff i gorff arall. Bwriedir iddynt fod yn sylfaen i gydlyniaeth a chysondeb darpariaeth a wneir i blant a phobl ifanc wrth iddynt symud o amgylch Cymru a thrwy gyfnodau addysg gwahanol.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Ystyr "person sy'n cael ei gadw'n gaeth" a themau allweddol eraill
--------------------------	--

Rhan y Bil:	2
ADRAN	36(2)
<b>DISGRIFIAD O'R PŴER</b>	
<p>Mae ystyr y term "awdurdod cartref" (a ddefnyddir yn adrannau 36-40) yn seiliedig ar ei ddiffiniad yn adran 562J(1) o Ddeddf Addysg 1996, sef-</p> <p>"(a) in relation to a child or young person who immediately before the beginning of the detention was, or at any time since then has been, a looked after child, means the local authority who are looking after, or who have most recently been looking after, the person;</p> <p>(b) in relation to any other child or young person, means the local authority in whose area the person is ordinarily resident" (ignoring the period when the person is subject to the detention order and regulations under section 562J(4) may make further provision for determining where a person is ordinarily resident)."</p> <p>At ddibenion Rhan 2, caiff rheoliadau ddarparu bod</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• paragraff (a) o'r diffiniad yn gymwys gydag addasiadau;</li> <li>• bod darpariaethau unrhyw reoliadau o dan adran 562J(4) o Ddeddf Addysg 1996 yn gymwys, gydag addasiadau neu hebddynt.</li> </ul>	
<b>PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD</b>	
<p>Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i ganiatáu ystyr wahanol yng nghyd-destun plant sy'n derbyn gofal a materion ADY, ac wrth arfer y pŵer arall mewn unrhyw ffordd, i gymhwyso'r un ddarpariaeth neu ddarpariaeth wedi'i haddasu yng nghyd-destun ADY. Felly mae pwerau dirprwyedig yn briodol fel bod hyn yn digwydd.</p>	
<b>BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU</b>	
Ni ragwelir ar hyn o bryd y caiff y pŵer hwn ei arfer yn y dyfodol agos.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)	

<b>RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:</b>	Llunio cynlluniau datblygu unigol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth
Rhan y Bil:	2
ADRAN	37(2)(b)
<b>DISGRIFIAD O'R PŴER</b>	
<p>Mae'r pŵer yn gwneud darpariaeth mewn rheoliadau ar gyfer y materion sy'n gorfod llywio penderfyniad awdurdod lleol ynglŷn ag a fydd angen cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth pan gaiff ei ryddhau.</p>	
<b>PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD</b>	
Mae'r Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol benderfynu, a hynny'n unol â	

rheoliadau, a fydd angen cynnal cynllun ar gyfer person pan fydd yn cael ei ryddhau. Mae pennu meini prawf ar gyfer penderfynu pryd y mae angen iddynt wneud hynny yn cyd-fynd â phwerau dirprwyedig gan y bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru addasu dros amser y meini prawf a ddylai gael eu cymhwyso mewn ymateb i angen ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a newid i bolisi addysg.

**BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU**

Byddai'r rheoliadau yn cael eu defnyddio i bennu'r meini prawf y bydd angen i awdurdodau lleol eu cymhwyso wrth benderfynu a ddylai CDU gael ei gynnal ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth pan gaiff ei ryddhau. Bwriedir i'r meini prawf ganolbwyntio ar sicrhau, os yw'r unigolyn yn debygol o fod ag angen rhesymol am addysg neu hyfforddiant ar ôl cael ei ryddhau, bod CDU ar waith er mwyn hwyluso'r broses i'r person ddychwelyd i addysg neu hyfforddiant ar ôl cael ei ryddhau.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Dyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir
Rhan y Bil:	2
ADRAN	45(2)(d)

**DISGRIFIAD O'R PŴER**

Gall rheoliadau ddarparu ar gyfer amgylchiadau (yn ychwanegol at y rhai a nodir yn adran 45(2)(a)-(c)) lle nad yw'n ofynnol i awdurdod lleol sicrhau addysg ar gyfer plentyn (a ddylai gael ei addysgu mewn ysgol) mewn ysgol prif ffrwd a gynhelir.

**PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD**

Mae rheoliadau o dan yr adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu amgylchiadau pellach lle na fyddai dyletswydd ar awdurdodau lleol i ffafrio addysg brif ffrwd a gynhelir ar gyfer plentyn ag ADY. Mae'n bosibl y bydd angen ychwanegu eithriad mewn ymateb i ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol.

**BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU**

Ni ragwelir ar hyn o bryd y caiff y pŵer hwn ei arfer yn y dyfodol agos.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol
Rhan y Bil:	2
ADRAN	50(3)
<b>DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD</b>	
Wrth i awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau o dan y Bil hwn, ni allant ond sicrhau addysg neu hyfforddiant ar gyfer plentyn neu berson ifanc mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru neu Loegr os yw'r sefydliad dan sylw ar y rhestr a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan adran 50. Mae adran 50(3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi eithriadau i hyn.	
<b>PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD</b>	
Mae'r pŵer hwn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru, er enghraifft, ychwanegu (neu ddileu) eithriadau i'r gwaharddiad cyffredinol er mwyn cynnwys unrhyw amgylchiadau annisgwyl ac eithriadol ar sail ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Felly, mae'n briodol fel pŵer dirprwyedig.	
<b>BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU</b>	
Ni ragwelir ar hyn o bryd y caiff y pŵer hwn ei arfer yn y dyfodol agos.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)	

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol
Rhan y Bil:	2
ADRAN	50(5)
<b>DISGRIFIAD O'R PŴER</b>	
Mae'n rhaid i reoliadau ddarparu ar gyfer materion yn ymwneud â'r rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol	
<b>PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD</b>	
Wrth i awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau o dan y Bil hwn, ni allant ond sicrhau addysg neu hyfforddiant ar gyfer plentyn neu berson ifanc mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru neu Loegr os yw'r sefydliad dan sylw ar y rhestr a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan adran 50, yn amodol ar unrhyw eithriadau rhagnodedig a wneir o dan adran 50(3). Mae'r pŵer hwn mewn perthynas â'r rhestr yn addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan ei fod yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru, er enghraifft, ychwanegu a diwygio'r wybodaeth sydd angen ei choladu fel rhan o'r rhestr; pennu gofynion y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw sydd i'w gosod ar y rhestr; meini prawf mewn perthynas â thynnu oddi ar y rhestr; a darparu ar gyfer hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau. Gall fod angen diwygio'r gofynion manwl dros amser ar sail ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n addas, felly,	

ar gyfer pwerau dirprwyedig.

#### BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU

Bydd y rheoliadau yn cadw cydbwysedd rhwng sicrhau bod y sefydliadau sy'n cael eu hychwanegu at y rhestr, a'u cadw ar y rhestr, yn bodloni meini prawf/safonau gofynnol sy'n diogelu buddiannau dysgwyr a all gael eu lleoli yno, ac osgoi cyflwyno beichiau biwrocraidd anghymesur ac annheg ar y sefydliadau hyn.

Mae rhai o'r meini prawf/safonau a all gael eu hystyried ar gyfer y rheoliadau wedi'u cynnwys yng nghanllawiau presennol Llywodraeth Cymru: "*Sicrhau darpariaeth i bobl ifanc ag anawsterau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol*".

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/p-16-funding-for-learners-with-learning-difficulties/?skip=1&lang=cy>

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
Rhan y Bil:	2
ADRAN	54 (4)
DISGRIFIAD O'R PŴER	
Caiff rheoliadau— (a) ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sicrhau bod gan gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol gymwysterau rhagnodedig neu brofiad rhagnodedig (neu'r ddau); a (b) rhoi swyddogaethau i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â darparu ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr (yn ôl y digwydd) ag anghenion dysgu ychwanegol.	
PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD	
Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (ac eithrio ysgolion arbennig) a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ddynodi 'cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol' (Cydlynnydd ADY). Mae'r pŵer yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru bennu'r cymwysterau a phrofiad rhagnodedig y mae'n rhaid i Gydlynwyr ADY feddu arnynt, ynghyd ag unrhyw swyddogaethau eraill sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau. Hefyd, mae'r Bil yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ystyried yr amserlenni sydd eu hangen i sicrhau bod gan y gweithlu'r holl gymwysterau priodol, a'r gofynion gwahanol (gan gynnwys gofynion iaith) a fydd eu hangen o bosibl mewn lleoliadau gwahanol. Efallai y bydd angen diweddarau'r rhain o bryd i'w gilydd, a hynny mewn ymateb i ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac anghenion. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol.	
BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU	
Bydd manylion y rheoliadau hyn yn destun deilliannau prosiect sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ar y cyd â rhanddeiliaid allanol i benderfynu'r lefel briodol o arbenigedd ar gyfer y swydd. Mae hyn yn debygol o gynnwys ymgynghoriad cynnar ar yr egwyddorion. Mae'n bosibl y bydd angen i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer rhoi'r gofynion ar waith fesul tipyn er mwyn hwyluso'r broses ofynnol o ddatblygu'r gweithlu.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau	

gweinidogol)

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Dyletswyddau cyrff cyhoeddus penodol i ddarparu gwybodaeth a help arall
Rhan y Bil:	2
ADRAN	58(5)
DISGRIFIAD O'R PŴER	
Mae'r Bil yn gosod dyletswyddau ar bersonau cyhoeddus penodol i ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall ar gais awdurdodau lleol, os oes angen y wybodaeth neu'r cymorth arnynt at ddibenion arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2. Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi terfyn amser i'r person gydymffurfio â'r cais, yn amodol ar eithriadau a all gael eu rhagnodi yn y rheoliadau (ac yn amodol ar yr eithriad yn is-adran (2) hefyd).	
PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD	
Efallai y bydd angen i'r amserlenni ac unrhyw eithriadau newid o bryd i'w gilydd, yn unol ag arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ystyriaethau ymarferol newidiol, a chynnwys y Cod ADY. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol.	
BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU	
Y bwriad presennol yw defnyddio'r pŵer mewn ffordd debyg i'r rheoliadau presennol yn ymwneud ag anghenion addysgol arbennig (Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002), sy'n nodi bod rhaid cydymffurfio â chais i awdurdod iechyd gyfrannu at asesiad statudol ymhen chwe wythnos i ddyddiad derbyn y cais, yn amodol ar eithriadau.  Fodd bynnag, gall fod yn briodol newid yr amserlen hon yn y dyfodol.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)	

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Darparu nwyddau neu wasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol
Rhan y Bil:	2
ADRAN	60(1)
DISGRIFIAD O'R PŴER	
Gall rheoliadau ddarparu i awdurdod lleol gyflenwi nwyddau neu wasanaethau i — (a) person sy'n arfer swyddogaethau o dan Ran 2, neu (b) person sy'n gwneud darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn cysylltiad ag arfer	

swyddogaethau o dan Ran 2.
<b>PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD</b>
Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Rheoliadau sy'n galluogi awdurdod lleol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae pwerau dirprwyedig yn addas ar gyfer hyn gan eu bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu manylion technegol ynghylch telerau ac amodau y gallai fod angen eu newid o bryd i'w gilydd.
<b>BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU</b>
Mae defnydd o'r pŵer hwn yn destun ystyriaeth bellach. Fodd bynnag, y bwriad cyffredinol mewn perthynas ag unrhyw reoliadau a wneir yw y byddant yn hwyluso'r broses o gyflenwi nwyddau a gwasanaethau lle y bo hynny'n fanteisiol i weithredu'r system ddeddfwriaethol newydd.
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

<b>RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:</b>	Rheoliadau ynghylch apelau a cheisiadau
Rhan y Bil:	2
ADRAN	67(1)
<b>DISGRIFIAD O'R PŴER</b>	
Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch apelau (yn ymwneud ag ADY) a cheisiadau mewn perthynas â galluedd plentyn i ddeall (a chyfeillion achos), i Dribiwnlys Addysg Cymru. Er enghraifft, caiff rheoliadau wneud darpariaethau pellach ynghylch gwneud apelau neu geisiadau a dyfarnu amynt, rhoi pwerau pellach i'r Tribiwnlys wrth ddyfarnu ar apelau neu geisiadau, ac ar gyfer apelau neu geisiadau heb wrthwynebiad.	
<b>PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD</b>	
Mae'r Bil yn rhoi'r hawl i blant, eu rhieni a phobl ifanc apelio yn erbyn materion penodol a gwneud ceisiadau yn eu cylch. Gallai'r manylion ynghylch sut y gall apelau o'r fath gael eu gwneud a'u dyfarnu newid o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i ystyriaethau ymarferol a pholisïau a all newid. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol.	
<b>BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU</b>	
Mae rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn debygol o fod yn debyg i'r rheoliadau a nodir yn Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)	



RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Gweithdrefn apelio
Rhan y Bil:	2
ADRAN	68(1) a 2
<b>DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD</b>	
<p>Mae adran 68(1) yn darparu y caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch -</p> <p>(a) cychwyn apêl o dan y Bil, a</p> <p>(b) thrafodion Tribiwnlys Addysg Cymru ar apêl o dan y Bil</p> <p>Mae adran 68(2) yn cynnwys rhestr (anghyflawn) o faterion y gall rheoliadau o dan adran 68(1) gynnwys darpariaeth yn eu cylch.</p>	
<b>PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD</b>	
<p>Gallai'r manylion ynghylch sut y gall apelau o'r fath gael eu gwneud newid o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i ystyriaethau ymarferol a all newid. Er enghraifft, newidiadau i bolisïau ar ddyfarnu costau neu dreuliau, y mae angen iddynt fod yn gyson ar draws y system Tribiwnlys. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol.</p>	
<b>BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU</b>	
<p>Mae rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn debygol o fod yn debyg i'r rheoliadau a nodir ar hyn o bryd yn Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012.</p> <p>Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)</p>	

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Cynnal trafodion yn breifat
Rhan y Bil:	2
ADRAN	68(3)
<b>DISGRIFIAD O'R PŴER</b>	
<p>Caiff rheoliadau ragnodi amgylchiadau lle mae'n rhaid i drafodion gerbron y Tribiwnlys gael eu cynnal yn breifat.</p>	
<b>PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD</b>	
<p>Gallai'r manylion ynghylch sut y gall apelau o'r fath gael eu gwneud newid o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i ystyriaethau ymarferol a all newid. Gallai'r rhain gynnwys yr amgylchiadau lle mae'n briodol i drafodion y Tribiwnlys gael eu cynnal yn gyhoeddus, efallai mewn ymateb i arferion sy'n newid o ran tribiwnlysoedd yn fwy cyffredinol. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol.</p>	
<b>BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU</b>	
<p>Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn debygol o gael ei ddefnyddio er mwyn ei gwneud yn ofynnol clywed pob gwrandawriad yn breifat ac eithrio yn yr amgylchiadau cyfyngedig a nodir</p>	

ar hyn o bryd yn Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Cymhwysio darpariaethau'r Ddeddf Cymrodeddu
Rhan y Bil:	2
ADRAN	68(4)
DISGRIFIAD O'R PŴER	
Caiff rheoliadau wneud darpariaeth sy'n cyfateb i unrhyw ddarpariaeth o Ran 1 o Ddeddf Cymrodeddu 1996	
PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD	
Gallai'r manylion ynghylch sut y gall apelau o'r fath gael eu gwneud newid o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i ystyriaethau ymarferol a all newid. Gallai'r rhain gynnwys gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i Ran 1 o Ddeddf Gymrodeddu 1996, efallai mewn ymateb i arferion sy'n newid o ran tribiwnlysoedd yn fwy cyffredinol. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol.	
BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU	
Nid yw'r rheoliad yn debygol o gael ei ddefnyddio yn y dyfodol agos. Mae'r un pŵer yn bodoli mewn perthynas â'r system AAA bresennol, ond nid yw wedi'i ddefnyddio.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)	

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Cydymffurfedd â gorchmynion
Rhan y Bil:	2
ADRAN	69
DISGRIFIAD O'R PŴER	
Gall rheoliadau bennu cyfnod pan fydd yn rhaid i gorff llywodraethu SAB neu'r awdurdod lleol dan sylw gydymffurfio â gorchymyn Tribiwnlys Addysg Cymru, gan gychwyn ar ddyddiad ei lunio.	
PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD	
Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi mewn rheoliadau y cyfnod pan fydd yn rhaid i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol dan sylw gydymffurfio â gorchymyn Tribiwnlys Addysg Cymru, gan ddechrau ar ddyddiad ei lunio. Efallai y bydd angen i hyn newid o bryd i'w gilydd er mwyn adlewyrchu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae	

pwerau dirprwyedig felly'n briodol.
<b>BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU</b>
Mae rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn debygol o fod yn debyg i'r rheoliadau a nodir ar hyn o bryd yn Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012.
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

<b>RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:</b>	Rheoliadau ynghylch datgelu a defnyddio gwybodaeth
Rhan y Bil:	2
ADRAN	73(1)
<b>DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD</b>	
Mae'r pŵer hwn yn caniatáu ar gyfer darpariaeth ynghylch datgelu a defnyddio gwybodaeth at ddibenion y Rhan hon o'r Bil neu at ddibenion eraill sy'n gysylltiedig ag addysg plentyn neu berson ifanc. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, datgelu CDU heb ganiatâd y person y mae'n ymwneud ag ef.	
<b>PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD</b>	
Mae'n bosibl y bydd angen i ddarpariaethau ynghylch datgelu newid o bryd i'w gilydd er mwyn adlewyrchu ystyriaethau ymarferol a all newid megis datblygiadau mewn cyfraith achosion. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol.	
<b>BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU</b>	
Caiff y broses o arfer y pŵer ei hystyried ar sail gwaith ehangach tuag at weithredu, gan gynnwys y manylion gweithredol yn y Cod a manylion rheoliadau eraill. Bwriedir cynnwys mesurau diogelu lle bo hynny'n briodol.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)	

<b>RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:</b>	Rhieni a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd
Rhan y Bil:	2
ADRAN	74(1)
<b>DISGRIFIAD O'R PŴER</b>	
Caiff rheoliadau gymhwyso unrhyw ddeddfiad gydag addasiadau at ddiben rhoi effaith i'r Rhan hon mewn achos pan na fo gan berson ifanc, neu riant plentyn, alluedd ar yr adeg berthnasol.	

## PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD

Mae'r Bil yn gofyn bod Gweinidogion Cymru'n gwneud rheoliadau er mwyn sicrhau cynrychiolaeth ddigonol gan berson priodol i bobl ifanc, neu rieni plant nad oes ganddynt alluedd meddyliol, ar adeg pan fydd ganddynt hawl i wneud penderfyniad neu fynegi eu barn mewn perthynas â materion yn y Bil. Efallai y bydd angen diwygio'r darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd er mwyn adlewyrchu arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac felly mae pwerau dirprwyedig yn briodol. Mae pŵer cyfatebol wedi'i ychwanegu i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 drwy Atodlen 1 y Bil, mewn perthynas â honiadau sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabled o dan y Ddeddf honno.

## BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU

Os nad oes gan riant plentyn, neu berson ifanc, alluedd (yn unol ag ystyr Deddf Galluedd Meddyliol 2005) ar yr adeg berthnasol, bydd rheoliadau yn caniatáu i gynrychiolydd weithredu ar ran y person hwnnw, e.e. dirprwy a benodir gan y Llys Gwarchod.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Cyfeillion achos
Rhan y Bil:	2
ADRAN	76(8)

## DISGRIFIAD O'R PŴER

Mae adran 76 yn galluogi penodi cyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt ddealltwriaeth ddigonol i arfer yr hawliau a roddwyd iddynt gan y Bil neu i ddeall gwybodaeth a dogfennau y mae'n rhaid eu rhoi iddynt o dan y Bil. Mae'r Bil yn nodi'r prif ddarpariaethau ar gyfer cyfeillion achos, er enghraifft beth y gallant ei wneud a sut y mae angen iddynt weithredu.

Mae'r pŵer o dan adran 76(8) i wneud darpariaeth bellach yn ymwneud â chyfeillion achos, er enghraifft mewn perthynas â'r materion a restrir yn adran 76(8)(a)-(g) (ond nid yn gyfyngedig i'r materion hynny).

## PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD

Mae'n bosibl y bydd angen i'r fframwaith rheoleiddio yn ymwneud â chyfeillion achos newid dros amser wrth i'r system ddeddfwriaethol newydd a nodir yn y Bil gael ei sefydlu ac wrth i dystiolaeth ddod i'r amlwg ynglŷn â sut y gellir defnyddio cyfeillion achos yn fwyaf effeithiol i gefnogi hawliau'r plentyn. Darparu pŵer rheoleiddio yw'r dull mwyaf effeithiol o sicrhau bod modd addasu'r fframwaith yn unol â'r dystiolaeth. Hefyd, mae'n caniatáu cynnwys manylion tebyg i'r hyn a nodir yn Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012 yn y rheoliadau, e.e. materion gweithdrefnol manwl.

## BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU

Mae cyfeillion achos eisoes yn bodoli o dan Ddeddf Addysg 1996, a darperir ymhellach ar eu cyfer yn Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012. Bydd rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn darparu manylion pellach i sicrhau bod modd gweithredu'r

darpariaethau yn ymwneud â chyfeillion achos yn y Bil, er enghraifft darparu rhagor o wybodaeth am rôl y Tribiwnlys mewn perthynas â chyfeillion achos a phennu amgylchiadau penodol pan na all person weithredu fel cyfaill achos.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Cyfansoddiad Tribiwnlys Addysg Cymru
Rhan y Bil:	3
ADRAN	79(6)
DISGRIFIAD O'R PŴER	
Caiff rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol— (a) darparu i awdurdodaeth y Tribiwnlys gael ei harfer gan y nifer hwnnw o driwlynsoedd y mae'r Llywydd yn penderfynu arno o bryd i'w gilydd, a (b) gwneud unrhyw ddarpariaeth arall mewn cysylltiad â sefydlu'r Tribiwnlys a'i barhad yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol.	
PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD	
Mae'r Bil yn pennu cyfansoddiad Tribiwnlys Addysg Cymru. Gallai fod angen i'r manylion gweinyddol o fewn y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon gael eu newid o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i newid i bolisïau yn ymwneud â sut mae'r triwlynsoedd yn gweithredu yn fwy cyffredinol. Felly mae pwerau dirprwyedig yn briodol.	
BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU	
Mae rheoliadau a wneir drwy ddefnyddio'r pŵer hwn yn debygol o fod yn debyg i Reoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012 sydd eisoes yn bodoli.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)	

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Y Llywydd ac aelodau'r paneli
Rhan y Bil:	3
SECTION	80(2)
DISGRIFIAD O'R PŴER	
Caiff rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol ragnodi gofynion y mae'n rhaid i berson eu bodloni er mwyn cael ei benodi'n aelod o'r panel lleyg.	

**PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD**

Mae'r Bil yn pennu darpariaethau ynghylch penodi person yn llywydd, a phenodi person yn aelod o banel y cadeirydd cyfreithiol neu'r panel lleyg. Bydd pwerau dirprwyedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r gofynion y mae'n rhaid i berson eu bodloni er mwyn cael ei benodi'n aelod o'r panel lleyg. Gallai'r rhain gael eu diweddarau o bryd i'w gilydd er mwyn adlewyrchu ystyriaethau newydd. Felly mae pwerau dirprwyedig yn briodol.

**BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU**

Mae rheoliadau a wneir trwy ddefnyddio'r pŵer hwn yn debygol o fod yn debyg i'r rheoliadau sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Ystyr "yn ardal" awdurdod lleol
Rhan y Bil:	4
ADRAN	82

**DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD**

Mae pŵer i wneud rheoliadau yn a579 o Ddeddf Addysg 1996 yn caniatáu gwneud darpariaeth bellach yn ymwneud ag ystyr "yn ardal" awdurdod lleol yng Nghymru.

**PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD**

Mae adran 82 yn mewnosod pŵer i wneud rheoliadau yn adran 579 o Ddeddf Addysg 1996 fel bod modd gwneud darpariaeth bellach ynghylch ystyr cyfeiriadau at berson "yn ardal" awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r pŵer hwn yn rhoi hyblygrwydd i wneud darpariaeth bellach, er enghraifft, yng ngoleuni unrhyw sefyllfaoedd a allai godi lle mae yna ansicrwydd.

**BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU**

Ni ragwelir ar hyn o bryd y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol agos.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.
Rhan y Bil:	4
ADRAN	84(1)

<b>DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD</b>
Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, ddarvoudol, drosiannol neu ganlyniadol os ydynt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddiben, o ganlyniad i, neu i roi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf. Gall y rheoliadau ddiwygio, diddymu a dirymu deddfiadau a dogfennau statudol.
<b>PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD</b>
Mae pwerau dirprwyedig yn addas i roi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth o'r fath. Mae'r Atodlen i'r Bil yn cynnwys rhai o'r diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol; bydd angen diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth hefyd.
<b>BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU</b>
Bydd yr angen, neu'r diffyg angen, i ddefnyddio'r pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol yn dibynnu ar a ydynt yn angenrheidiol ar sail unrhyw newidiadau i'r Bil yn ystod y broses o graffu arno. Y bwriad yw gwneud diwygiadau canlyniadol sy'n golygu bod darpariaethau'r Bil yn cyd-fynd yn briodol â deddfwriaeth arall.
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

<b>RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:</b>	Diffiniad o gorff GIG
Rhan y Bil:	4
ADRAN	86(8)
<b>DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD</b>	
Caiff rheoliadau ddiwygio'r diffiniad o gorff GIG fel ei fod yn cynnwys Awdurdod Iechyd Arbennig.	
<b>PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD</b>	
Byddai'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniad o "gorff GIG" a ddefnyddir yn y Bil er mwyn iddo gynnwys Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Golyga hyn y byddai dyletswyddau cyrff GIG o dan adrannau 18 ac 19 (ynghylch darpariaeth ddysgu ychwanegol) yn berthnasol i unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig. Nid yw'r Awdurdodau Iechyd Arbennig sy'n bodoli ar hyn o bryd yn arfer swyddogaethau perthnasol yng nghyd-destun ADY, ond gallai awdurdodau newydd gael eu creu yn y dyfodol sy'n arfer swyddogaethau o'r fath. Pe bai hynny'n digwydd, mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn darparu cwmplas i'w cynnwys yn un o'r cyrff y mae'r dyletswyddau yn yr adrannau hynny yn berthnasol iddynt.	
<b>BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU</b>	
Ni ragwelir ar hyn o bryd y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol agos.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)	



--

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Mewnosod paragraff newydd 6A(7) i Atodlen 17 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010
Rhan y Bil:	Atodlen 1
ADRAN	Paragraff 11(5)(f)
<b>DISGRIFIAD O'R PŴER</b>	
Mae'r pŵer hwn (sy'n debyg i'r pŵer cyfredol i wneud rheoliadau ym mharagraff 6A o Atodlen 17 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i wneud darpariaeth bellach yn ymwneud â chyfeillion achos ar gyfer plant sy'n cyflwyno hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd gerbron y Tribiwnlys.	
<b>PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD</b>	
Gellir penodi cyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt ddigon o ddealltwriaeth i arfer eu hawl i wneud hawliad ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd a roddwyd iddynt drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Ddeddf, fel y'i diwygiwyd gan y Bil, yn amlinellu'r prif ddarpariaethau ar gyfer cyfeillion achos – beth ydynt a sut y cânt eu penodi a'u dileu. Mae'r manylion hyn yn addas ar gyfer pwerau dirprwyedig oherwydd mae'n bosibl y bydd angen i Weinidogion Cymru wneud diwygiadau dros amser, gan gynnwys mewn ymateb i amgylchiadau sy'n newid o ran sut y gellir defnyddio cyfeillion achos i gefnogi hawliau'r plentyn. Felly, mae pwerau dirprwyedig yn briodol. Cyflwynwyd pŵer cyfatebol yn adran 76(8) o'r Bil mewn perthynas ag apelau yn ymwneud ag ADY a wneir o dan y Bil.	
<b>BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU</b>	
Bydd rheoliadau a wneir trwy ddefnyddio'r pŵer hwn yn cyfateb mor agos â phosibl i'r rhai a wneir o dan y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 76(8) fel bod darparu cyfeillion achos mewn perthynas â hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd yn ymwneud ag ysgolion yn cyfateb i ddarparu cyfeillion achos mewn perthynas ag apelau ADY. Mae'r rheoliadau yn debygol o fod yn debyg i Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012 yn ymwneud â chyfeillion achos.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)	

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Mewnosod paragraff newydd 6F(1) i Atodlen 17 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010)
Rhan y Bil:	Atodlen 1
ADRAN	Paragraff 11(5)(g)
<b>DISGRIFIAD O'R PŴER</b>	
Rheoliadau i sicrhau bod cynrychiolaeth ddigonol gan berson priodol i rieni heb alluedd meddyliol ar adeg pan fydd hawl ganddynt wneud hawliad ynghylch gwahaniaethu ar sail	

anabledd ar ran eu plentyn. Hefyd, rheoliadau i sicrhau bod cynrychiolaeth ddigonol gan bersonau dros yr oedran ysgol gorfodol sydd heb alluedd meddyliol.

#### PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD Y RHEOLIAD

Mae'r pŵer hwn, a fewnosodwyd i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gan y Bil, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sicrhau bod cynrychiolaeth ddigonol gan berson priodol i rieni heb alluedd meddyliol ar adeg pan fydd hawl ganddynt wneud hawliad ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd ar ran eu plentyn. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sicrhau bod cynrychiolaeth ddigonol gan bersonau dros yr oedran ysgol gorfodol sydd heb alluedd meddyliol. Gallai fod angen diwygio'r darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd i adlewyrchu arferion seiliedig ar dystiolaeth, ac felly maent yn addas ar gyfer pwerau dirprwyedig. Mae pŵer cyfatebol wedi'i gynnwys yn adran 74(1) y Bil mewn perthynas ag apelau a wneir o dan y Bil.

#### BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU

Bydd rheoliadau a wneir trwy ddefnyddio'r pŵer hwn yn cyfateb mor agos â phosibl i'r rhai a wneir o dan y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 74(1) fel bod y ddarpariaeth mewn perthynas â galluedd rhieni a phobl ifanc mewn cysylltiad â hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd yn ymwneud ag ysgolion yn cyfateb i'r ddarpariaeth mewn perthynas ag apelau ADY.

Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)

GORCHYMYN YN YMWNEUD Â:	Dod i rym
Rhan y Bil:	4
ADRAN	87(2)
DISGRIFIAD O'R PŴER	
Byddai adran 1, ac adrannau 84 i 88 i gyd yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod pan fydd y Ddeddf yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Byddai gweddill darpariaethau'r Ddeddf hon yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol. Hefyd, mae'r pŵer hwn yn caniatáu i ddarpariaeth ddarfodol, drosiannol neu arbed gael ei gwneud mewn cysylltiad â dod â darpariaeth i rym.	
PAM Y MAE ANGEN Y GORCHYMYN	
Mae'r pŵer dirprwyedig hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y diwrnodau a bennir yn cyd-fynd â'r trefniadau trosiannol a gweithredu manwl ar ôl i'r Bil drafft gael ei basio, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod y broses o gychwyn adrannau'r Bil yn cydgysylltu'n briodol â'r broses o gychwyn y Cod.	
BWRIAD POLISI'R GORCHYMYN	
Mae'r dyddiadau dod i rym a materion gweithredu cysylltiedig (fel darpariaethau trosiannol) yn destun trafodaeth barhaus â rhanddeiliaid.	
Gwybodaeth berthnasol arall (gwaith hyd yn hyn, dogfennau polisi neu ddatganiadau gweinidogol)	

